Partneriaeth CASCADE



Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Adroddiad diwedd dyfarniad 2020-2025



## Partneriaid Seilwaith CASCADE

CASCADE

ExChange

SAIL DATABANK

Cardiff University Prifysgol Caerdydd — Centre for Trials Research / Canolfan Ymchwil Treialon

Cardiff University Prifysgol Caerdydd — School of Psychology / Ysgol Seicoleg

CASCADE Voices

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


1. Trosolwg y Cyfarwyddwr ..... 03
2. Pwy yw Pwy, Llywodraethu, Partneriaethau ..... 05
3. Crynodeb o'r Dyfarniad ..... 06
   - Cyflawniadau a Meysydd Effaith ..... 08
4. Themâu Allweddol o'r Pum Mlynedd Diwethaf ..... 11
   - Creu: Adeiladu Sylfeini Newydd ar gyfer Ymchwil ac Arloesi ..... 12
   - Cydweithio: Gweithio Gyda'n Gilydd er Gofal Cymdeithasol Gwell ..... 16
   - Newid: Gwneud Gwahaniaeth, Llywio Polisi ac Effeithio ar Ymarfer ..... 19
   - Capasiti: Meithrin Dyfodol Ymchwil Gofal Cymdeithasol ..... 22
5. Cynnwys ac Ymgysylltu â’r Cyhoedd ..... 24
   - Cynnwys y Cyhoedd: Mwyhau Profiad Bywyd mewn Ymchwil ..... 25
   - Ymgysylltu a lledaenu gwybodaeth ..... 26
6. Casgliad ..... 28

# 1. Trosolwg y Cyfarwyddwr



Mae'r adroddiad hwn yn nodi diwedd y pum mlynedd cyntaf o gyllid seilwaith gan Lywodraeth Cymru, trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ar gyfer Partneriaeth CASCADE, ac felly mae'n rhoi cyfle i fyfyrio ar gyflawniadau a chynllunio ar gyfer y pum mlynedd nesaf a thu hwnt. Yn ôl unrhyw fesur, mae ein pum mlynedd cyntaf wedi bod yn llwyddiannus: Fe wnaethon ni arwain 84 o geisiadau llwyddiannus gwerth cyfanswm o dros £12 miliwn ac fe wnaethon ni ymwneud â 30 o ddyfarniadau pellach gwerth dros £65 miliwn mewn incwm ymchwil. At ei gilydd, mae hyn wedi ariannu 193 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru. Hefyd, mae sail gref dros feddwl bod y llwyddiant hwn yn gwneud gwahaniaeth. Mewn mesurau academaidd, er enghraifft nifer y cyhoeddiadau a dyfyniadau o'n gwaith, rydym wedi gweld twf rhyfeddol. Yn bwysicach fyth, o ystyried ein ffocws ar ymarfer, mae enghreifftiau lu o'r dylanwad cadarnhaol rydym ni'n ei gael yng Nghymru a thu hwnt, ac mae nifer ohonynt wedi'u disgrifio yn yr adroddiad hwn. Yn ogystal, rydym wedi datblygu staff yn llwyddiannus, gan gynnwys 19 o ddyrchafiadau (chwech i lefel Athro) ac 20+ a mwy o Ddoethuriaethau. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau y gallwn gynnal ein llwyddiant.

Mae Partneriaeth CASCADE hefyd wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth dyfu sefydliadau eraill. Fe wnaethon ni helpu i sefydlu Canolfan CARE ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol Oedolion, sy'n mynd o nerth i nerth. Mae rhwydwaith ymgysylltu ymchwil Cymru gyfan ar gyfer gofal cymdeithasol, ExChange, wedi ffynnu a dod yn annibynnol. Fe wnaethon ni helpu i sefydlu'r Ganolfan Ddysgu Gofal Cymdeithasol a Deallusrwydd Artiffisial (SCALE) newydd gyffrous ac rydym yn cefnogi'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil i Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Mae gwaith datblygu o'r fath bellach yn rhyngwladol ac mae ganddo rôl allweddol yn cefnogi sefydlu'r Ganolfan Plentyndod Gwell yn Copenhagen, Denmarc. Datblygiad llai amlwg, ond efallai yr un mor bwysig, yw bod yr Athro David Wilkins, aelod allweddol o CASCADE, bellach yn arwain y cwrs gwaith cymdeithasol yng Nghaerdydd, ac mae llawer o'r syniadau a'r arferion o'n hymchwil yn llywio addysgu'r genhedlaeth nesaf o weithwyr cymdeithasol – ac efallai ymchwilwyr gofal cymdeithasol y dyfodol. Felly nid yn unig yr ymchwil a wnawn yw'r gwahaniaeth y mae CASCADE yn ei wneud, ond hefyd ein gallu i gefnogi eraill i wneud ymchwil ac addysgu mewn meysydd tebyg a fydd o fudd i blant a'u teuluoedd.

Mae'r llwyddiannau hyn yn dangos y gwahaniaeth y gall cefnogaeth a chyllid parhaus ei wneud. Rydym yn ffodus bod Prifysgol Caerdydd ac Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol wedi caniatáu amser academaidd neilltuedig i arwain CASCADE a gobeithio ein bod yn arwydd o'r elw y gall buddsoddiadau o'r fath ei wneud. Yn bwysicach fyth, dangosodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru barodrwydd i roi cynnig ar rywbeth newydd wrth ein hariannu, a'i fod yn agored yn barhaus i syniadau a chyfleoedd newydd. Gobeithio bod yr adroddiad hwn yn rhoi syniad o'r llwyddiant y gall buddsoddiad o'r fath ei gynhyrchu – gan greu nid yn unig wahaniaethau cadarnhaol i deuluoedd, ond capasiti ymchwil yng Nghymru, hefyd.

Ac eto, er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n gwbl briodol ar ein llwyddiannau amrywiol dros y 5 mlynedd diwethaf, mae'r presennol yn teimlo'n llawn heriau. Ym Mhrifysgol Caerdydd ac ar draws Addysg Uwch, mae arian yn gyfyngedig, mae swyddi mewn perygl ac mae posibilrwydd o streiciau a tharfu arall. Er bod y sefyllfa'n llai acíwt yn y maes rydym ni'n ei wasanaethu – sef Gofal Cymdeithasol Plant – mae hynny efallai oherwydd bod cyflwr o argyfwng wedi mynd yn gronig. Yn sicr, nid oes sail i fod yn hunanfodlon. Yng Nghymru, mae cyfraddau plant mewn gofal yn parhau i fod yn eithriadol o uchel, mae anawsterau wrth recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol a bach iawn o dystiolaeth sydd o ymarfer o ansawdd uchel cyson. Mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd o dan bwysau systemig difrifol.

Mewn amgylchiadau o'r fath, mae cyfrifoldeb ar ganolfannau ymchwil i ddangos y gallwn wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Nid yn unig y mae'n rhaid i ni wneud ymchwil, rhaid i ni hefyd weithio mewn partneriaeth â llunwyr polisi, arweinwyr, ymarferwyr a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau i greu newidiadau cadarnhaol. Ein cenhadaeth dros y pum mlynedd nesaf yw gwneud yn union hynny, drwy adeiladu ar gyflawniadau eithriadol ein pum mlynedd cyntaf o gyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a pharhau i greu a gwerthuso syniadau newydd ynghylch sut y gallwn wneud gofal cymdeithasol i blant.

Felly, mae gan yr Adroddiad hwn ddwy swyddogaeth – mae'n ddathliad o'r hyn rydym ni wedi'i gyflawni, ond mae hefyd yn nodyn addewid o'n bwriadau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt – wrth i Bartneriaeth CASCADE ymdrechu i helpu plant, teuluoedd a gweithwyr trwy gynhyrchu ymchwil o ansawdd uchel i gefnogi a gwella gofal cymdeithasol plant.

**Donald Forrester**
Cyfarwyddwr Partneriaeth CASCADE





*'Mae CASCADE yn enghraifft wych o'r math o waith y mae Caerdydd yn ei wneud orau... yr hyn y mae prifysgol ddinesig fyd-eang yn ei wneud yw gwaith sy'n ymgysylltu'n ddwfn yn y lle y mae ynddo, ond yna mae'n defnyddio hynny i siarad â'r byd, i gwneud gwahaniaeth i'r byd. Felly, nid yn unig gwneud gwahaniaeth yn ei lle, ond gweithio o ddifrif i ddangos i'r byd y gwahaniaeth y gall gwaith seiliedig ar le ei wneud. Ac ni allaf feddwl am enghraifft well na CASCADE o'r math hwnnw o waith'*

**Yr Athro Wendy Larner**
***Is*-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd.**

# 2. Pwy yw Pwy, Llywodraethu, Partneriaethau

Mae'r Bartneriaeth yn dod â phedair canolfan ymchwil at ei gilydd. Cawn ein harwain gan Fwrdd Llywodraethu sy'n cyfarfod bob chwarter – er, mae llawer o'n hegni a'r syniadau newydd a gynhyrchir yn deillio o'r gwaith a wnawn gyda'n gilydd i ddatblygu a chyflawni prosiectau neu feysydd gwaith penodol, ac o'r diwrnodau i ffwrdd a'r seminarau rheolaidd.




**Jonathan Scourfield** yn Athro Gwaith Cymdeithasol ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr CASCADE. Mae ganddo rôl allweddol mewn datblygu ein gwaith o ran cysylltu data â gofal cymdeithasol plant.



**Jo Parry** yw Rheolwr Canolfan CASCADE, ac mae'n arwain y broses o ddarparu cymorth gwasanaethau proffesiynol mewn modd effeithlon ledled y Bartneriaeth**.**



**Mike Robling** yn Athro ac yn Gyfarwyddwr Treialon Iechyd y Boblogaeth yn y Ganolfan Treialon Ymchwil. Mae'n arwain cyfraniad y Ganolfan Treialon Ymchwil ac mae ganddo rôl allweddol yn datblygu dulliau gwerthuso cymhleth ac arloesol ar gyfer gofal



**David Ford** yn Athro Gwybodeg ac yn Gyfarwyddwr Gwyddor Data Poblogaethau yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe.Mae'n arwain cyfraniad Banc Data SAIL, gan gefnogi'r gwaith o lunio portffolio o astudiaethau trwy ddefnyddio dulliau cysylltu data uwch a gymhwysir at ofal cymdeithasol i blant.




**Donald Forrester** yn Athro Gwaith Cymdeithasol Plant a Theuluoedd ac yn Gyfarwyddwr CASCADE. Mae'n Gyfarwyddwr y Bartneriaeth ac mae'n gyfrifol am oruchwylio ei holl waith.



**Lucy Griffiths** yn Athro Epidemioleg Bediatrig yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe. Mae hi'n arwain gwaith cysylltu data gofal cymdeithasol plant Abertawe ar gyfer y Bartneriaeth.



**David Wilkins** yn Athro mewn Gwaith Cymdeithasol ac yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol CASCADE. David sy'n bennaf gyfrifol am ddatblygu proffil, dylanwad ac effaith allanol y Bartneriaeth.



**Alyson Rees** yn Athro mewn Gwaith Cymdeithasol. Yn flaenorol, bu Alyson yn arwain gwaith ymgysylltu ein hymchwil gofal cymdeithasol i Gymru gyfan – sef ExChange.



**Katherine Shelton** yn Athro Seicoleg Ddatblygiadol ac yn Bennaeth Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd. Mae hi'n gweithio gyda Lorna Stabler (CASCADE) ac Amy Paine (Seicoleg) ar astudiaeth o Warcheidiaethau Arbennig a ariennir gan Sefydliad Nuffield i wella ein dealltwriaeth o fywyd teuluol ac anghenion cymorth.

# 3. Crynodeb o'r Dyfarniad

Mae'r pum mlynedd diwethaf wedi nodi cyfnod o dwf, arloesedd a dylanwad eithriadol i Bartneriaeth CASCADE. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, drwy ddyfarniad seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Bartneriaeth yn dwyn ynghyd dri sefydliad blaenllaw: Canolfan Treialon Ymchwil Prifysgol Caerdydd, yr Ysgol Seicoleg, a Banc Data SAIL Prifysgol Abertawe, wedi'u cydlynu gan y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE).

Gyda'n gilydd, rydym wedi creu amgylchedd bywiog a chydweithredol lle mae ymchwil, gwyddor data a mewnwelediad seicolegol yn croestorri i yrru gwelliannau mewn gofal cymdeithasol plant. Mae'r cydweithrediad hwn yn galluogi dull gwirioneddol ryngddisgyblaethol, gan gefnogi gwerthusiadau ar raddfa fawr, astudiaethau cysylltu data arloesol, ac ymchwil a gynhyrchwyd ar y cyd â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol.

Drwy gydol cyfnod y dyfarniad, rydym wedi ehangu ein portffolio ymchwil yn sylweddol, wedi datblygu canolfannau a rhwydweithiau newydd, wedi cefnogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa, ac wedi dylanwadu ar feysydd polisi ac ymarfer sylweddol yng Nghymru a thu hwnt. Rydym wedi cynnwys y cyhoedd ar draws ein gwaith ac wedi cefnogi rhannu gwybodaeth drwy ExChange Wales, gan sicrhau bod ein hymchwil yn cyrraedd ymarferwyr, llunwyr polisi a chymunedau.

# Metrigau Craidd
## Cyfnod adrodd: **2020/2025**

CASCADE Partneriaeth

### Gwobr seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i'r grŵp

Cyllid uniongyrchol a ddyfarnwyd **£2.6m**

Swyddi a grëwyd drwy gyllid uniongyrchol **15**

### Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

| Grantiau a enillwyd | Dan arweiniad y grŵp | Grŵp yn cydweithio |
|---|---|---|
| Nifer | 84 | 30 |
| Gwerth | £12.2m | £65m |
| Cyllid i Gymru | £10.5m | £21.7m |
| Cyllid i grŵp | £10.4m | £6.4m |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru | 103 | 90 |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp | 98 | 33 |

**217** Nifer y cyhoeddiadau

**366** Nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd

**276** Nifer y cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan

## Cyflawniadau a Meysydd Effaith

### 2020–2021



**Llwyddiant mawr wrth ennill grantiau ac amrywio'r portffolio.**

Sicrhaodd Partneriaeth CASCADE 16 grant newydd gwerth cyfanswm o £2.2 miliwn, gan gynnwys yr hapdreial rheoledig (RCT) mwyaf mewn gofal cymdeithasol plant yn y DU ac astudiaethau ar gamfanteisio, cysylltu data ac atal gofal.

**Deialog polisi dan arweiniad ymchwil gyda'r Adolygiad Annibynnol yn Lloegr.**

Cyfrannodd CASCADE dystiolaeth i'r Adolygiad Gofal cenedlaethol yn Lloegr, gyda Donald Forrester yn aelod o Banel Tystiolaeth yr Adolygiad.

**Sefydlu ExChange fel rhwydwaith ymgysylltu ymchwil cenedlaethol.**

Sicrhaodd cyllid seilwaith ddyfodol ExChange fel platfform Cymru gyfan ar gyfer lledaenu gwybodaeth, gan gynnig cynnwys ar-lein hyblyg i ymarferwyr prysur.

**Ehangu cydweithrediadau rhyngwladol yn gynnar.**

Sefydlwyd partneriaethau â Denmarc, y Ffindir a'r Eidal, ac ymunodd yr Athro Heather Taussig, Cymrawd Fulbright, â CASCADE o UDA.

### 2021–2022

**Arweiniodd Partneriaeth CASCADE ymchwil allweddol i iechyd meddwl ymhlith plant mewn gofal.**

Ymunodd yr Athro Katherine Shelton â chydweithrediad gwerth £2.8m a ariannwyd gan UKRI ar iechyd meddwl a lles plant mewn gofal adeg pwyntiau trosglwyddo.

**Cydnabod Martin Elliott am ragoriaeth ymchwil.**

Enillodd ei erthygl ar dlodi a chyfraddau gofal yng Nghymru Erthygl y Flwyddyn gan y British Journal of Social Work a Chymdeithas Ymchwil Gwaith Cymdeithasol Ewrop.

**Cefnogodd Partneriaeth CASCADE ddatblygiad myfyrwyr PhD ac ôl-ddoethuriaethau..**

Roedd ffocws parhaus ar gapasiti ymchwil wedi cynnwys mentora, cefnogaeth i ddatblygu cynigion, a hyfforddiant ehangach ar arweinyddiaeth ar draws y bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth yn cefnogi tua 50-60 o fyfyrwyr PhD ac Ôl-ddoethurol ar unrhyw adeg benodol.





# Cyflawniadau a Meysydd Effaith

## 2022–2023

**Denodd y Siarter Rhieni sylw cenedlaethol a rhyngwladol.**

Cafodd y Siarter, a gynhyrchwyd ar y cyd â rhieni, ei chymeradwyo mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru ac fe wnaeth pob un o 22 ALl Cymru, yn ogystal â rhanddeiliaid yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ei mabwysiadu neu ymgysylltiad â hi.

**Ymddangosodd tystiolaeth Partneriaeth CASCADE yn ganolog yn ymchwiliad Senedd 2023 i ddiwygio radical.**

Fe wnaethom gyflwyno canfyddiadau o 10 astudiaeth a'n grwpiau cyfranogiad cyhoeddus. Cyfeiriodd yr adroddiad a ganlyniodd at Bartneriaeth CASCADE drwy'r cyfan ac adlewyrchodd sawl un o'n hargymhellion.

**Dylanwad polisi lefel uchel y DU.**

Rhoddodd Nina Maxwell dystiolaeth ar gamfanteisio'n droseddol ar blant a throseddau â chyllyll i Senedd y DU (mis Mawrth 2023). Cyflwynodd Sally Holland gyngor arbenigol i ddeddfwyr Canada ar wahardd cosbi plant yn gorfforol.

**Ymatebion i ymgynghoriadau ac ymgysylltiad Llywodraeth Cymru.**

Cyfrannodd Sally Holland at yr ymgynghoriad ar ddileu elw o wasanaethau gofal plant, ac ymwelodd uwch swyddogion y llywodraeth â CASCADE i gael briffiau ar feysydd blaenoriaeth.

**Sesiynau tystiolaeth cyhoeddus a chlo yn y Senedd.**

Darparodd ymchwilwyr Partneriaeth CASCADE—gan gynnwys Louise Roberts, Helen Hodges, Hannah Bayfield, a David Westlake—dystiolaeth ar faterion yn amrywio o gyfiawnder teuluol i addysg a rhieni â phrofiad gofal.

**Cyfranwyr dylanwadol.**

Jonathan Scourfield a Sally Holland, dau ymchwilydd academaidd y cawsant eu henwi ymhlith y 100 cyfrannwr mwyaf dylanwadol at gyfnodolion gwaith cymdeithasol, gan atgyfnerthu rôl CASCADE fel arweinydd yn y maes.

## 2023–2024

**Enwi Pecyn Cymorth Diogelu Cymhleth yn argymhellion y Senedd.**

Cafodd ein hadnoddau ar gamfanteisio'n droseddol ar blant eu hargymell at ddefnydd cenedlaethol yn adroddiad ymchwiliad Plant sydd ar yr Ymylon 2024.

**Gwerthusiad SWIS yn dylanwadu ar benderfyniadau cyllideb Llywodraeth y DU.**

Dyfynnwyd ein hymchwil gan Drysorlys y DU gan ei bod yn tynnu sylw at enghraifft o ymyrraeth gostus nad oedd yn cyflawni canlyniadau, gan arwain at roi'r gorau i'w chyllido.

**Y cyfryngau rhyngwladol ac effaith gyhoeddus.**

Cafodd gwaith Partneriaeth CASCADE ar rieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal a diwygio polisi sylw ar BBC News a chyfryngau blaenllaw eraill.

**Llywiodd ymchwil ymarfer llysoedd teulu cenedlaethol.**

Dyfynnwyd adroddiad CASCADE mewn canllawiau newydd gan y Cyngor Cyfiawnder Teuluol ar ymateb i honiadau o ddieithrio plentyn oddi wrth riant, a gafodd sylw gan y BBC ac y mae disgwyl iddo lywio dyfarniadau yn y dyfodol.

## 2024–2025

**Gwerthusiad blaenllaw o Gynllun Peilot Incwm Sylfaenol Cymru.**

Mae CASCADE yn parhau i arwain y gwerthusiad o'r polisi blaenllaw hwn ar gyfer ymadawyr gofal, gyda'r canlyniadau'n llywio trafodaethau cenedlaethol a rhyngwladol ar ddiwygio lles.

**Seminarau tystiolaeth cenedlaethol wedi'u gwreiddio mewn llunio polisïau yng Nghymru.**

Cynhaliwyd sesiynau caeedig misol gyda swyddogion uwch Llywodraeth Cymru, gan rannu canfyddiadau cyn eu cyhoeddi er mwyn cefnogi diwygiadau sy'n mynd rhagddynt i ofal cymdeithasol.

**Dementia a Mabwysiadu: Profiadau Byw i'r Amlwg**

Croesawodd ExChange ddigwyddiadau hynod o effeithiol, gan gynnwys y Ddarlith Fabwysiadu hybrid a chyfres wedi'i chanolbwyntio ar ddementia a oedd yn chwyddo lleisiau'r rhai yr effeithiwyd arnynt.



**Rolau ymgynghorol ar draws sefydliadau yng Nghymru ac yn y DU.**

Fe wnaeth staff Partneriaeth CASCADE gynghori adrannau Llywodraeth y DU (DEFRA, DfE), CAMHS GIG Cymru, diwygio cyfiawnder ieuenctid, caethwasiaeth fodern, a grwpiau strategaeth data Llywodraeth Cymru.

**Arweinyddiaeth barhaus mewn cyfranogiad cyhoeddus.**

Lluniodd ein Bwrdd Ymgysylltu, Lleisiau CASCADE, a'n Grŵp Rhieni flaenoriaethau ymchwil a dulliau ymgysylltu ar draws y Ganolfan.

**Cyfrannodd ymchwilwyr at adroddiadau CCUHP Cymru.**


Roedd Helen Hodges yn gyd-awdur cyflwyniad grŵp monitro Cymru i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**Dathlodd CASCADE 10 mlynedd o ragoriaeth mewn ymchwil gofal cymdeithasol plant.**

Ym mis Mai 2024, nododd CASCADE ei phen-blwydd yn 10 oed gyda digwyddiad dathlu a fynychwyd gan staff a rhanddeiliaid allweddol. Roedd y digwyddiad yn cydnabod degawd o waith ymchwil effeithiol, cydweithio a dylanwad ar bolisi yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

**Canolfannau ymchwil newydd wedi'u sefydlu a'u cryfhau drwy Bartneriaeth CASCADE.**

Lansiwyd CARE (Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol Oedolion) a SCALE (Canolfan Ddysgu Gofal Cymdeithasol a Deallusrwydd Artiffisial) gyda chefnogaeth gan Bartneriaeth CASCADE, tra bod ExChange Wales wedi dechrau ei gam nesaf o ddod yn ganolfan wybodaeth gwbl annibynnol. Hefyd, cyfrannodd Partneriaeth CASCADE at greu Canolfan Plentyndod Gwell Denmarc, gwerth £38 miliwn, gan ehangu ei chyrhaeddiad a'i heffaith ryngwladol.



# 4. Themâu Allweddol o'r Pum Mlynedd Diwethaf

### Ein Pedwar Piler Cynnydd

Nodweddir ein gwaith gan bedair thema gydgysylltiedig sy'n adlewyrchu ein ffocws strategol ac ehangder ein gweithgarwch dros y pum mlynedd diwethaf. Nodweddir ein gwaith gan bedair thema gydgysylltiedig sy'n adlewyrchu ein ffocws strategol ac ehangder ein gweithgarwch dros y pum mlynedd diwethaf.

- **Creu** - Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu dulliau ymchwil newydd a methodolegau arloesol sy'n ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg ac anghenion y sector.

- **Cydweithio** - Rydym wedi ymrwymo i weithio ochr yn ochr â'r rhai sydd â phrofiad bywyd, yn ogystal â phartneriaid academaidd, polisi ac ymarfer, i gynhyrchu ymchwil sy'n ystyrlon ac wedi'i seilio ar realiti.

- **Newid** - Mae ein hymchwil yn llywio ac yn dylanwadu ar bolisi, ymarfer a thrafodaeth gyhoeddus, gan greu gwelliannau pendant mewn systemau, gwasanaethau a chymorth.

- **Capasiti** - Rydym yn datblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr gofal cymdeithasol, gan fuddsoddi mewn gyrfaoedd academaidd a gwasanaeth proffesiynol, a thyfu ein rhwydwaith o ganolfannau ymchwil ledled Cymru a thu hwnt.

# Creu: Adeiladu Sylfeini Newydd ar gyfer Ymchwil ac Arloesi

## Cefnogi rhagoriaeth mewn ymchwil Cefnogi rhagoriaeth mewn ymchwil

Dros y pum mlynedd diwethaf, nid yn unig y mae Partneriaeth CASCADE wedi cryfhau ei chapasiti ymchwil ei hun ond mae hefyd wedi chwarae rhan allweddol wrth sefydlu canolfannau ymchwil newydd sy'n ehangu lled a dyfnder ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r mentrau newydd hyn yn adlewyrchu gweledigaeth strategol ar gyfer twf, gan sicrhau bod ymchwil o ansawdd uchel yn parhau i lywio polisi ac ymarfer wrth fynd i'r afael â bylchau critigol mewn gwybodaeth a darpariaeth gwasanaethau.









CARE Centre for Adult Social Care Research Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion

### *Y Ganolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion (CARE)*

Canolfan ymchwil newydd sy'n ymroddedig i ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Dan arweiniad yr Athro Paul Willis, bydd CARE yn gweithio ochr yn ochr â Phartneriaeth CASCADE i hyrwyddo dealltwriaeth o wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a theuluoedd, heriau'r gweithlu, a diwygio polisi. Mae'r ddwy ganolfan yn cydweithio ar feysydd allweddol fel trawsnewidiadau gofal cymdeithasol, ymchwil sy'n pontio'r cenedlaethau, ac argymhellion polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

### *SCALE: Canolfan Ddysgu Gofal Cymdeithasol a Deallusrwydd Artiffisial*

Yn 2024, daeth CASCADE yn bartner allweddol yn SCALE (Canolfan Ddysgu Gofal Cymdeithasol a Deallusrwydd Artiffisial), sef menter ymchwil gwerth £1.8 miliwn sy'n anelu at harneisio deallusrwydd artiffisial (AI) a gwyddor data i wella deilliannau gofal cymdeithasol. Bydd SCALE, sydd wedi'i ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn archwilio sut y gellir defnyddio dysgu peirianyddol a chipolygon sy'n cael eu gyrru gan AI i wella gwneud penderfyniadau, symleiddio gwasanaethau, a darparu gwell cefnogaeth i blant a theuluoedd agored i niwed. Trwy integreiddio arloesedd technolegol ag ymarfer rheng flaen, mae Partneriaeth CASCADE ar flaen y gad o ran llunio dyfodol ymchwil gofal cymdeithasol a darparu gwasanaethau.



***ExChange: Canolfan Wybodaeth ar gyfer CASCADE, CARE a SCALE***

Mae ExChange Wales yn parhau i wasanaethu fel canolfan wybodaeth hanfodol, gan sicrhau bod ymchwil gan CASCADE, CARE a SCALE ac ymchwil arall yn cael ei rhannu, ei bod yn hygyrch, a'i bod yn cael effaith. Trwy gynadleddau, gweminarau, podlediadau ac adnoddau ar-lein, mae ExChange yn pontio'r bwlch rhwng ymchwil, polisi ac ymarfer, gan sicrhau bod cipolygon sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gael i ymarferwyr, llunwyr polisi a phobl â phrofiad bywyd.

Gyda CARE yn canolbwyntio ar ofal cymdeithasol i oedolion a SCALE yn arloesi ymchwil sy'n cael ei gyrru gan AI, bydd ExChange Wales yn cysylltu'r canolfannau hyn, gan feithrin cydweithio a sicrhau bod canfyddiadau'n cyrraedd y rhai a all sbarduno newid yn y byd go iawn. Wrth i'r bartneriaeth dyfu, bydd ExChange Wales yn parhau i fod yn gonglfaen i'w strategaeth lledaenu gwybodaeth ac ymgysylltu, gan droi ymchwil yn weithredu.






***Y Ganolfan Plentyndod Gwell yn Nenmarc Mae dylanwad byd-eang***

CASCADE yn parhau i dyfu gyda'i hymwneud â'r Ganolfan Plentyndod Gwell yn Nenmarc. Bydd y fenter ryngddisgyblaethol £38 miliwn yn gwella gofal ac addysg plentyndod cynnar drwy wella'r gwaith o droi ymchwil yn ymarfer. Mae Cyfarwyddwr CASCADE, yr Athro Donald Forrester, yn gwasanaethu fel Cyfarwyddwr Ymchwil Sylfaen, gan sicrhau bod ymchwil gofal cymdeithasol arloesol yn llywio arferion gorau rhyngwladol.



## Gwerthusiad o'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol: Menter Arloesol ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal

Yn 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal, menter gyntaf o'i bath yn y DU, sy'n cynnig incwm gwarantedig o £1,600 y mis (£1,280 ar ôl treth) i bobl ifanc sy'n gadael gofal, am ddwy flynedd. Nod y cynllun uchelgeisiol hwn yw gwella sefydlogrwydd ariannol, lles, a deilliannau hirdymor i bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal wrth iddynt gamu i oedolaeth.
Comisiynwyd CASCADE, mewn cydweithrediad â sefydliadau ymchwil blaenllaw, i werthuso effaith y cynllun peilot, gan sicrhau bod y polisi wedi'i lywio gan dystiolaeth gadarn a phrofiad bywyd.

**Dull Gwerthuso Cynhwysfawr**
Y gwerthusiad, dan arweiniad yr Athro Sally Holland a Dr. David Westlake, yw un o'r asesiadau mwyaf trylwyr o bolisi incwm sylfaenol yn fyd-eang. Mae'r tîm ymchwil yn defnyddio ymagwedd aml-ddull, gan gyfuno:

- Dadansoddiad lled-arbrofol i gymharu'r grŵp peilot ag ymadawyr gofal nad ydynt yn derbyn yr incwm sylfaenol.
- Arolygon hydredol a chyfweliadau i olrhain lles ariannol, iechyd meddwl, sefydlogrwydd cartref, a deilliannau cyflogaeth.
- Dadansoddiadau o ran gweithredu a phroses i asesu sut mae'r cynllun yn cael ei gyflwyno a'i effaith ar awdurdodau lleol, gweithwyr cymdeithasol a gwasanaethau cefnogi.



***Cipolygon Cynnar a Goblygiadau Polisi***
Gyda thros 97% o ymadawyr gofal cymwys yn cofrestru, mae'r nifer uchel o bobl sy'n cymryd rhan yn tynnu sylw at y galw am sicrwydd ariannol ymhlith y grŵp agored i niwed hwn. Gyda thros 97% o ymadawyr gofal cymwys yn cofrestru, mae'r nifer uchel o bobl sy'n cymryd rhan yn tynnu sylw at y galw am sicrwydd ariannol ymhlith y grŵp agored i niwed hwn. Mae canfyddiadau cynnar yn awgrymu bod y cynllun yn lleihau straen ariannol, gan ganiatáu i bobl ifanc ddilyn addysg, sicrhau cartref sefydlog, a gwella lles.

Bydd y gwerthusiad yn parhau tan 2027, gydag adroddiadau blynyddol yn darparu cipolygon i lywio polisïau cymdeithasol yn y dyfodol yng Nghymru a thu hwnt. O ystyried y diddordeb rhyngwladol sylweddol mewn modelau incwm sylfaenol, disgwylir i ganfyddiadau CASCADE lunio trafodaethau ar ddiwygio lles, cymorth i bobl ifanc, a chyfiawnder cymdeithasol ledled y byd.





## Gweld yr Anweladwy: Defnyddio Arolygon Seicolegol i Ddeall Awtistiaeth yn achos Plant mewn Gofal

Dywed ymchwil flaenorol wrthym fod plant mewn gofal yn fwy tebygol o fod yn niwrowahanol o'i gymharu â phlant nad ydynt wedi cael profiad o ofal. Credir hefyd bod heriau arwyddocaol yn wynebu plant mewn gofal wrth iddynt geisio cael diagnosis priodol i'w galluogi i cael y gefnogaeth briodol drwy gydol eu plentyndod. Yn benodol, gall fod yn fwy heriol i blentyn awtistig gael y diagnosis cywir oherwydd gorgyffwrdd posibl a dim ond mân wahaniaethau rhwng anhwylder ymlyniad ac awtistiaeth.

Nod y prosiect hwn, dan arweiniad Sarah Thompson ac mewn cydweithrediad â Chanolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru yn yr Ysgol Seicoleg, yw deall mwy am brofiadau plant awtistig sydd mewn gofal yng Nghymru. Mae'r prosiect yn cynnwys dadansoddi data o gronfa ddata SAIL, arolwg cenedlaethol a ddosbarthwyd i ofalwyr maeth, a chyfweliadau ansoddol â staff gwaith cymdeithasol a gofalwyr i alluogi gwell dealltwriaeth o ddiagnosis ac anghenion cymorth y bobl ifanc hyn.

Fe wnaeth yr arolwg gofalwyr maeth cenedlaethol roi cyfle i ddeall mwy am blant mewn gofal, y tu hwnt i'r diagnosis clinigol. Fe wnaeth y defnydd o ddulliau holiadur seicolegol safonol ein galluogi ni i ddeall mwy am lefelau nodweddion awtistig, anawsterau ymlyniad, a chryfderau ac anawsterau ehangach i blant sydd mewn gofal ar hyn o bryd.

Cafodd yr arolwg ei ddyrannu drwy'r Rhwydwaith Maethu a chafodd ymateb gan 190 o ofalwyr maeth, gyda gwybodaeth am 222 o blant mewn gofal bryd hynny yng Nghymru. Yn hollbwysig, roedd yr arolwg hwn yn gallu rhoi darlun mwy cyflawn o lefelau nodweddion awtistig mewn plant mewn gofal nag y deallwyd yn flaenorol, oherwydd y defnydd o'r mesurau seicolegol hyn nad ydynt fel arfer yn cael eu defnyddio mewn ymchwil gofal cymdeithasol. Mae canfyddiadau cynnar yn dangos bod nifer fawr o blant mewn gofal yn arddangos lefelau uchel o nodweddion awtistig, er nad oes ganddynt ddiagnosis o awtistiaeth. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod nifer fawr o blant mewn gofal a allai elwa o asesiad pellach a mynediad at wasanaethau diagnosis a chymorth, y gall cael mynediad atynt fod yn anodd iddynt ar hyn o bryd.



# Cydweithio: Gweithio Gyda'n Gilydd er Gofal Cymdeithasol Gwell

## Ymchwil ar Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

Prosiect Ymchwil Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO) (Teuluoedd gwarcheidiaeth arbennig yng Nghymru: Profiadau ac anghenion cymorth (Sefydliad Nuffield) - CASCADE) yn gydweithrediad amlddisgyblaethol sy'n cynnwys yr Uned Asesu Niwroddatblygiad (NDAU) yng Nghanolfan Gwyddoniaeth Datblygiadol Dynol Prifysgol Caerdydd (CUCHDS; Yr Ysgol Seicoleg), Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) a Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL).

Nod y prosiect yw ymchwilio i anghenion a phrofiadau teuluoedd sydd â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Dechreuodd yr astudiaeth yn 2024, a bydd yn rhedeg tan fis Mawrth 2026. Mae wedi’i ariannu gan sefydliad Nuffield.

Mae Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn cydnabod bod y plentyn yn byw gyda gofalwr arall am y tymor hwy, ac mae gan ei ofalwr gyfrifoldeb rhiant drosto. Gallai gwarcheidwad arbennig fod yn fam-gu neu’n dad-cu, yn berthynas agos, yn ffrind i'r teulu neu’n gyn-ofalwr maeth. Pan fydd gan blentyn Orchymyn Gwarchodaeth Arbennig, nid yw’n cael ei ystyried yn 'blentyn sy'n derbyn gofal' mwyach ac, felly, mae'r gefnogaeth y mae'n ei derbyn yn newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu hymrwymiad i ddatblygu dull gwell a chyson sy'n seiliedig ar anghenion ar gyfer cefnogi teuluoedd Gwarcheidiaeth Arbennig ledled Cymru. Mae diffyg sail dystiolaeth ynghylch nodweddion, amgylchiadau ac anghenion y teuluoedd hyn. Rydyn ni’n gobeithio pontio'r bwlch hwn a dysgu rhagor am brofiadau ac anghenion teuluoedd â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.

Mae un edefyn o'r astudiaeth, dan arweiniad Dr. Paine yn yr Ysgol Seicoleg a Chyd-gyfarwyddwr yr Uned Asesu Niwroddatblygiad, yn targedu adnoddau o'r NDAU at blant oedran cynradd sydd â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.

Yn dilyn atgyfeiriad gan eu hysgol gynradd, gwahoddir plant i'r brifysgol. Yn ystod eu hymweliad, mae’r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i brofi eu gweithrediad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol ac ymddygiadol, tra bod eu gwarcheidwad yn ateb cyfres o holiaduron am y plentyn. Mae Seicolegydd Addysg yn trosi'r canlyniadau hyn, gan broffilio cryfderau ac anghenion y plentyn yn adroddiad personol ar gyfer athro'r plentyn, gan gynnwys strategaethau awgrymedig ar gyfer gweithio gyda'r plentyn.

Mae'r ymchwil hon yn gweithio i effeithio ar ymarfer drwy godi ymwybyddiaeth o anghenion plant â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig mewn ysgolion. Hyd yn hyn, mae ymdrechion o'r fath yn cynnwys cyflwyno gweminarau a gynhelir gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) i weithwyr proffesiynol addysg, rhannu postiadau blog a ysgrifennwyd ar anghenion addysgol plant ysgol gynradd â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig a mynychu cynadleddau a digwyddiadau rhanddeiliaid. Rydym hefyd yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a Thimau Gwaith Cymdeithasol ledled De Cymru i gynorthwyo â rhannu gwybodaeth.

Mae potensial y gallai’r prosiect ysgogi newid sylweddol yn ein dealltwriaeth o ffactorau strwythurol, cymdeithasol a seicolegol a allai effeithio ar ganlyniadau tymor hir plant sydd â SGO.



## Astudiaeth Cydlynu Mabwysiadu Cymru: Papur Cyswllt â'r Teulu Genedigol

Mae Astudiaeth Cydlynu Mabwysiadu Cymru yn dathlu degawd o ymchwil i brofiadau teuluoedd mabwysiadol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r tîm, dan arweiniad yr Athro Katherine Shelton a'r Dr Amy Paine, wedi casglu chwe set o ddata arolwg gan rieni, ynghyd â chyfweliadau ac ymweliadau gan deuluoedd â'r Uned Asesu Niwroddatblygiadol ym Mhrifysgol Caerdydd. Cefnogwyd y gwaith hwn gan gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Waterloo Foundation. Mae hyn wedi ein galluogi i gynhyrchu canfyddiadau ar y ffactorau sy'n sail i lwyddiant lleoliadau, anghenion cymorth y plant a'r teuluoedd, a rôl yr asiantaethau a'r gwasanaethau mabwysiadu wrth baratoi a chefnogi teuluoedd drwy'r broses fabwysiadu ac ar ôl hynny.

Mae cydweithredu yn allweddol, ac mae'r astudiaeth ryngddisgyblaethol, sydd wedi'i lleoli yn yr Ysgol Seicoleg, yn gweithio gyda chydweithwyr yn CASCADE ac â rhanddeiliaid allanol i ddatblygu gwaith ar bynciau sy'n berthnasol i fabwysiadu yng Nghymru. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru i drafod blaenoriaethau ymchwil. Rydym ar fin dechrau grwpiau ffocws gyda rhieni i gasglu eu barn am gasglu data pellach, ac i ystyried sut y gallem ddechrau gweithio gyda'u plant fel rhan o'r astudiaeth.

Mae ein gwaith diweddar yn cynnwys papur dan arweiniad y Dr Edward Janes ar gyswllt rhwng plant mabwysiedig a'u rhieni biolegol, a ddatblygwyd gyda'r Athro Sally Holland (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, CASCADE).
Mae cyswllt â'r rhieni biolegol yn cael ei gydnabod yn gynyddol fel agwedd bwysig ar ddatblygiad hunaniaeth plentyn sy'n adlewyrchu ei hanes bywyd, ac ar ddatblygu perthynas gadarnhaol gyda'r teulu biolegol yn oedolyn, os dymunir. Fodd bynnag, gall fod yn anodd cynnal y cyswllt hwn dros amser.

Dangosodd dadansoddiad o'r data arolwg fod yr holl gyswllt â'r rhieni biolegol yn digwydd drwy lythyrau, ac er bod cyswllt wedi'i gynllunio ar gyfer cyfran sylweddol o deuluoedd, ni ddigwyddodd erioed. Lleihawyd y cyswllt gwirioneddol hefyd dros y cyfnod o wyth mlynedd. Nododd dadansoddiad o'r data cyfweliadau fod heriau ymarferol a diffyg cefnogaeth wedi rhwystro cyswllt, er bod enghreifftiau hefyd o berthnasoedd cadarnhaol hirdymor. Ymddangosodd cydweithrediad rhwng y rhieni mabwysiadol a'r rhieni biolegol, ynghyd â chyfraniad gweithredol gan asiantaethau a gweithwyr cymdeithasol, yn ffactorau pwysig wrth gyflawni'r canlyniadau cadarnhaol hyn.

Bydd y papur yn llywio polisi ynghylch pwysigrwydd cyswllt rhwng rhieni biolegol a'u plant, ac rydym yn bwriadu trafod gyda gweithwyr proffesiynol sut y gellir cynnal y cyswllt hwn. Am ragor o wybodaeth am yr astudiaeth, cysylltwch ag:

**adoption@caerdydd.ac.uk**

## Llwybrau Addysgol a Deilliannau i Blant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal

Yn ddiweddar, fe wnaeth Dr Emily Lowthian, Darlithydd mewn Addysg ym Mhrifysgol Abertawe, rannu gwybodaeth sydd wedi deillio o'i phrosiect ymchwil cydweithredol: Llwybrau Addysgol a Deilliannau i Blant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal Roedd y prosiect yn ymdrech ar y cyd rhwng Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Bryste, Banc Data SAIL, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a CASCADE VOICES, ac archwiliodd siwrneiau addysgol plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal gan ddefnyddio data dienw o Fanc Data SAIL i ddeall yn well yr heriau a'r cyfleoedd y maent yn eu hwynebu.

Nod y prosiect oedd archwilio sut mae profiadau gofal yn effeithio ar ddeilliannau addysgol, yn enwedig nodi ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol sy'n dylanwadu ar gyrhaeddiad. Yn benodol, roedd hi'n ceisio:

- Dadansoddi sut mae oedran plant pan fyddant yn cael eu derbyn i ofal gyntaf, hyd y cyfnod mewn gofal a'r math o leoliad yn effeithio ar eu perfformiad academaidd.
- Ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng profiadau gofal a cherrig milltir addysgol allweddol, fel Cyfnod Allweddol 1 (CA1), Cyfnod Allweddol 2 (CA2), a chyrhaeddiad TGAU.
- Nodi ffactorau, fel symud ysgol, gwaharddiadau ac anghenion addysgol arbennig, sy'n cyfrannu at gyrhaeddiad addysgol is.
- Darparu tystiolaeth i lywio polisi ac ymyriadau addysgol i gefnogi plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn well.

Defnyddiodd yr ymchwil ddata dienw, ar raddfa'r boblogaeth, o Fanc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), sef amgylchedd ymchwil dibynadwy. Crëwyd carfan drwy nodi pob plentyn a anwyd yng Nghymru rhwng 2000 a 2003, gan olrhain eu cynnydd addysgol hyd at ddiwedd yr ysgol uwchradd.

Drwy gysylltu cofnodion gofal cymdeithasol ac addysg, archwiliodd yr astudiaeth batrymau lleoliadau gofal, perfformiad yn yr ysgol, a ffactorau cysylltiedig fel iechyd, cefndir economaidd-gymdeithasol, a gwaharddiadau o'r ysgol.

**Roedd canfyddiadau'r prosiect yn cynnwys y canlynol:**

- Roedd mabwysiadu cynnar yn gysylltiedig â'r cyrhaeddiad academaidd uchaf, er ei fod yn is o hyd na'r boblogaeth gyffredinol.
- Fe wnaeth plant a gafodd eu hailuno â'u rhieni biolegol yn gynnar berfformio'n well na'r disgwyl, gan awgrymu bod ailuno sefydlog yn gallu cefnogi llwyddiant addysgol.
- Plant sydd â phrofiad o gael eu derbyn yn hwyrach i ofal a'r rhai sydd wedi cael lleoliadau lluosog oedd yn wynebu'r anfanteision addysgol mwyaf, gyda risgiau uwch o symud ysgol, gwaharddiadau a chyrhaeddiad gwael.
- Roedd symud rhwng ysgolion, anghenion addysgol arbennig, ac anfantais economaidd-gymdeithasol yn ffactorau risg sylweddol a oedd yn effeithio ar gyflawniad addysgol.



**Goblygiadau ar gyfer Polisïau ac Ymarfer**

Mae'r canfyddiadau'n amlygu'r angen am ymyriadau wedi'u teilwra i gefnogi plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, yn enwedig y rhai sy'n dychwelyd adref yn gynnar ond sy'n parhau i wynebu ansefydlogrwydd ac amddifadedd. Dylai ysgolion a llunwyr polisi gydnabod natur gymhleth profiadau gofal a darparu cefnogaeth barhaus i wella deilliannau addysgol.

# Newid: Gwneud Gwahaniaeth, Llywio Polisi ac Effeithio ar Ymarfer

## Mynd i'r Afael â Chamfanteisio'n Droseddol ar Blant

Mae camfanteisio'n droseddol ar blant (CCE) yn bryder cynyddol yng Nghymru a ledled y DU, gyda niferoedd cynyddol o bobl ifanc yn cael eu paratoi i gymryd rhan mewn gweithgareddau peryglus fel gwerthu cyffuriau, trais sy'n gysylltiedig â gangiau, a mathau eraill o gamfanteisio. Gan gydnabod yr angen taer am adnoddau ymarferol i gefnogi gweithwyr proffesiynol, plant a theuluoedd, mae ymchwilydd CASCADE, Dr. Nina Maxwell, wedi arwain gwaith arloesol yn y maes hwn, gan helpu i lunio ymarfer rheng flaen a pholisi cenedlaethol.

***Datblygu Pecyn Cymorth Camfanteisio'n Droseddol ar Blant: Ymateb Seiliedig ar Ymchwil***

Mae ymchwil Dr. Maxwell wedi rhoi cipolygon hanfodol i sut mae pobl ifanc yn gallu cael eu tynnu i fyd camfanteisio troseddol ac, yn fwy pwysig, sut y gellir eu hadnabod, eu cefnogi a'u hamddiffyn. Drwy ymgysylltu'n helaeth â gweithwyr cymdeithasol, timau cyfiawnder ieuenctid, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, a phobl ifanc â phrofiad personol, arweiniodd ddatblygiad pecyn cymorth ar-lein arloesol a gynlluniwyd i helpu gweithwyr proffesiynol i frwydro yn erbyn camfanteisio'n droseddol ar blant yn fwy effeithiol.

Mae Pecyn Cymorth Camfanteisio'n Droseddol ar Blant yn cynnwys:

- Siarter Ieuenctid a gynhyrchwyd ar y cyd â phobl ifanc, gan amlinellu eu hawliau a'u disgwyliadau o wasanaethau.
- Pecyn Cymorth i Ymarferwyr gyda chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar adnabod arwyddion rhybudd, ymateb i achosion, a chydweithio ar draws asiantaethau.
- Adnoddau i Rieni a Gofalwyr i helpu teuluoedd i ddeall y risgiau ac adnabod pryd y gallai eu plentyn fod mewn perygl y bydd rhywrai'n camfanteisio arno.
- Gwefan Diogelu Cymhleth Cymru, sef canolfan ddigidol hygyrch sy'n darparu adnoddau cyfoes, astudiaethau achos ac argymhellion arfer gorau ar gyfer mynd i'r afael â chamfanteisio'n droseddol ar blant.

**Ymchwil i Bolisi: Ymgorffori'r Pecyn Cymorth yng Nghyfraith Cymru**

Mae effaith gwaith Dr. Maxwell yn ymestyn ymhell y tu hwnt i ymchwil a datblygu adnoddau – mae ei chanfyddiadau wedi chwarae rhan hanfodol wrth lunio polisi Llywodraeth Cymru. Ym mis Mawrth 2023, cafodd ei gwahodd i ddarparu tystiolaeth arbenigol ar gamfanteisio'n droseddol ar blant a throseddau cyllyll i Senedd y DU. Yn dilyn hyn, cyflwynwyd tystiolaeth yn ffurfiol i ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru i gamfanteisio ar blant ddechrau 2024.

Dyfynnodd adroddiad ymchwiliad y Senedd, a gyhoeddwyd yn ddiweddarach y flwyddyn honno, ymchwil CASCADE yn helaeth ac argymhellodd bod y Pecyn Cymorth Camfanteisio'n Droseddol ar Blant yn cael ei fabwysiadu fel polisi cenedlaethol. Yn dilyn hyn, fe wnaeth Llywodraeth Cymru integreiddio elfennau o'r pecyn cymorth yn ffurfiol i'w hymagwedd at fynd i'r afael â chamfanteisio'n droseddol ar bobl ifanc, gan sicrhau bod gan awdurdodau lleol a gweithwyr rheng flaen ledled Cymru fynediad at adnoddau ymarferol, wedi'u seilio ar ymchwil, i amddiffyn pobl ifanc agored i niwed.

## Gweithwyr Cymdeithasol mewn Ysgolion (SWIS): Dysgu oddi wrth Loegr, Myfyrio yng Nghymru

Cyflwynodd y prosiect hwn ganfyddiadau treial Gweithwyr Cymdeithasol mewn Ysgolion (SWIS) i randdeiliaid yng Nghymru, gyda'r nod o archwilio a ellid datblygu a gweithredu ymyrraeth debyg yng nghyd-destun Cymru.

SWIS oedd yr astudiaeth fwyaf o'i bath a gynhaliwyd erioed ym maes gofal cymdeithasol plant yn y DU. Profodd y treial, a gynhaliwyd ar draws 150 o ysgolion mewn 21 o awdurdodau lleol yn Lloegr, effaith gosod gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion i wella gwasanaethau i deuluoedd, lleihau risgiau i blant, a gwella deilliannau ehangach. Er bod maint ac uchelgais y treial yn addawol iawn, dangosodd y canfyddiadau terfynol nad oedd SWIS wedi gwella'r deilliannau yr oedd yn bwriadu eu newid yn sylweddol.

Yn hytrach na dadlau dros fabwysiadu SWIS yn uniongyrchol yng Nghymru, canolbwyntiodd y prosiect hwn ar drosi'r canfyddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru a meithrin ymgysylltiad ystyrlon â gweithwyr proffesiynol a llunwyr polisi. Roedd y gweithgareddau allweddol yn cynnwys cyfres o weithdai ExChange Wales gydag ymarferwyr, lle trafododd y cyfranogwyr sut y gallai model tebyg i SWIS weithredu yng Nghymru, ac archwiliont y rhwystrau a'r galluogwyr posibl i'w weithredu. Rhoddwyd



cyflwyniadau i gynulleidfaoedd polisi lleol a chenedlaethol, ynghyd â briff dwyieithog yn amlinellu 10 neges allweddol o'r treial.

Er nad oedd canlyniadau'r treial yn cefnogi parhad SWIS yn ei ffurf brofedig, mae'r prosiect hwn yn enghraifft o sut nad yw ymgysylltu ag ymchwil yn effeithiol bob amser yn cynnwys ehangu ymyrraeth. Yn yr achos hwn, fe wnaeth y dystiolaeth glir o werthusiad cadarn ysgogi Llywodraeth y DU i dynnu cyllid yn ôl o'r fenter – gan arbed buddsoddiad sylweddol mewn model nad yw'n cyflawni'r manteision a fwriadwyd. I Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid, mae'r prosiect yn enghraifft werthfawr o sut y gall ymgysylltu'n gynnar â chanfyddiadau ymchwil atal gweithredu dulliau aneffeithiol, a hynny'n gostus.






## Rhianta Ar ôl Gofal: Siarter ar gyfer Newid

Archwiliodd ymchwil cymrodoriaeth ôl-ddoethurol Louise Roberts (a ariannwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru) beth sy'n digwydd pan fydd pobl ifanc sydd mewn gofal ac yn gadael gofal y wladwriaeth yn dod yn rhieni. Amlygodd y canfyddiadau'r duedd at stigma a gwahaniaethu, cefnogaeth danddatblygedig a lefelau pryderus o wahanu teuluol.

Ers cwblhau'r ymchwil, mae prosiectau effaith olynol (a ariannwyd gan IAA ac Arloesi i Bawb ESRC) yn cynnwys Louise Roberts, Rachael Vaughan a Dawn Mannay a sefydliadau blaenllaw yn y trydydd sector yng Nghymru, Voices from Care Cymru, NYAS Cymru a TGP Cymru, wedi ceisio creu newid polisi ac ymarfer. Yn ganolog i'r ymdrechion hyn fu datblygu siarter arfer da, a gynhyrchwyd ar y cyd â rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae'r siarter yn gofyn i lofnodwyr wneud cyfres o ymrwymiadau i gefnogi pobl ifanc cyn iddynt ddod yn rhieni, pan fyddant yn disgwyl ac yn gofalu am blentyn, ac os codir pryderon ynghylch y ffordd maent yn rhianta. Mae'r siarter wedi cael croeso cadarnhaol ledled Cymru, gyda phob un o'r 22 Awdurdod Lleol wedi llofnodi neu'n gweithio tuag at wneud hynny. Hefyd, mae'r siarter a'r ymchwil sy'n sylfaen iddi wedi cael lle amlwg yn adroddiadau Senedd Cymru gan y Pwyllgor Deisebau a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Mae'r siarter wedi ennyn diddordeb yn yr un modd o wledydd y tu allan i Gymru, gan gynnwys Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Awstralia. Cyngor Harrow yn Lloegr oedd yr awdurdod lleol cyntaf i lofnodi ac, yn y cyhoeddusrwydd yn y cyfryngau a wnaeth gyd-fynd â hynny, dywedasant y byddent yn rhoi'r gorau i'r arfer gwahaniaethol, sef cynnal asesiad cyn-geni awtomatig ar gyfer rhieni sydd mewn gofal ac yn gadael gofal.

Mewn ymgynghoriad â rhieni lleol sydd â phrofiad o fod mewn gofal, mae'r siarter hefyd wedi'i haddasu i gyd-fynd â chyd-destunau lleol. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Cyngor Islington ddwy fersiwn, un yn amlinellu'r gefnogaeth y byddent yn ei darparu i bob rhiant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac un arall yn canolbwyntio ar y gefnogaeth sydd ar gael pan godir pryderon ynghylch diogelu. Mae sefydliadau cenedlaethol, gan gynnwys Barnardo's, The Fostering Network, Voices of Young People in Care (Gogledd Iwerddon) a The Why Not Trust (Yr Alban), yn defnyddio ac yn hyrwyddo'r siarter yn eu gwaith yn yr un modd. Yn fwyaf diweddar, mae'r tîm wedi cael eu gwahodd i Awstralia i rannu'r gwaith hwn gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr yn Victoria.

# Capasiti: Meithrin Dyfodol Ymchwil Gofal Cymdeithasol

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr gofal cymdeithasol. Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi cefnogi myfyrwyr PhD, wedi meithrin ymchwilwyr ar ddechrau ac ar ganol eu gyrfa, ac wedi creu cyfleoedd ar gyfer dilyniant, cydweithio ac arweinyddiaeth. Trwy feithrin sgiliau, hyder a llwybrau gyrfaol, rydym yn helpu i lunio cymuned ymchwil gryfach a mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Swyddi a grëwyd
**103**


Dyrchafiadau ac ailraddio
**19**

PhDs a Ôl-ddoethurol a gefnogwyd*
**60+**

*20+ Graddedigion

WelshCrucible CrwsiblCymru

***Gwobrau Crwsibl Cymru***


Phil Smith


Helen Hodges


Hannah Bayfield


Verity Bennett


Nina Maxwell


Martin Elliott


***Gwobr Kay McDougall BASW a'r British Journal of Social Work, am erthygl y flwyddyn***


***Cyfraniad rhagorol o draethawd doethuriaeth, Cymdeithas Ymchwil Gwaith Cymdeithasol Ewrop***


Sophie Wood

***Gwobr datblygu NIHR***

***Ysgoloriaeth y 100 Prif Gyfrannwr at Gyfnodolion Gwaith Cymdeithasol***


Jonathan Scourfield 41st


Sally Holland 92nd


***Athrawon Prifysgol Partneriaeth CASCADE ers 2020:***



Lucy Griffiths


Dawn Mannay


David Wilkins


Katherine Shelton



Clive Diaz


Alyson Rees

# Capasiti: Meithrin Dyfodol Ymchwil Gofal Cymdeithasol

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

### *Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Uwch-arweinwyr*







### *Cynghorydd Datblygu Ymchwil ar gyfer Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru*




### *Cynghorydd Polisi Arbenigol i Lywodraeth Cymru*




### *Rhai o'n Doethuriaethau a gwblhawyd yn ddiweddar*

**Lorna Stabler** - *"Beth yw profiadau bywyd brodyr a chwiorydd o roi gofal i berthnasau? Nodi llwybrau at wella canlyniadau gofal gan berthnasau."*

**Rebecca Jones** - *"Mentora ar gyfer plant mewn gofal: y cysyniad o rôl, gwerth, a chanlyniadau'r rhaglen Ymwelydd Annibynnol."*

**Lucy Sheehan** - *"Datrys Newid – Astudiaeth Ethnograffig o Ymarfer Diogelu Plant."*

**Lucy Treby** - *"Beth yw'r berthynas rhwng goruchwylio ac ymarfer mewn gwaith cymdeithasol plant a theuluoedd? Dadansoddiad o 12 astudiaeth achos."*


**Charlotte Whittaker** - *"Datblygu damcaniaeth o Gyfweld Ysgogol ar gyfer gwaith cymdeithasol statudol gyda phlant a theuluoedd: Sut gellir defnyddio cyfweld ysgogol i gefnogi sgyrsiau effeithiol am risg?"*

**Angela Endicott** - *"Archwilio ymarfer lles plant gyda rhieni sy'n defnyddio sylweddau o safbwynt anghyfiawnder epistemig."*

**Ed Janes** - *"Bywydau Gofalgar: Beth sydd ei angen ar bobl ifanc sy'n gofalu am aelodau o'r teulu i ffynnu? Ymchwiliad empirig."*

### *Dyfarniadau Ymchwilwyr sy'n Datblygu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru*













### *Arweinwyr Arbenigol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru*





### *Cymrodoriaethau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru*











# 5. Cynnwys ac Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Mae ymgysylltu ystyrlon yn ganolog i ymchwil effeithiol. Credwn fod ymchwil yn cael yr effaith fwyaf pan gaiff ei llunio gan y rhai sydd â phrofiad bywyd, ei rhannu â'r bobl y bwriedir iddi eu cefnogi, a'i chyfleu mewn ffyrdd sy'n glir, yn hygyrch ac yn berthnasol.

Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi meithrin rhwydweithiau, llwyfannau a phartneriaethau cryf i sicrhau bod ein gwaith yn llywio ymarfer, yn dylanwadu ar bolisi, yn adlewyrchu llais y rhai sydd â phrofiad personol ac yn ymateb i anghenion y byd go iawn. Boed drwy gynnwys y cyhoedd, ymgysylltu proffesiynol, neu gyfathrebu ehangach, ymgysylltu yw’r ffordd rydym yn troi ymchwil yn newid.



## Cynnwys y Cyhoedd: Mwyhau Profiad Bywyd mewn Ymchwil

Mae Cynnwys y Cyhoedd yn ganolog i'n hymchwil, gan sicrhau bod lleisiau'r rhai sydd â phrofiad personol yn llunio ein hastudiaethau, ein polisïau a'n heffaith. Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi dyfnhau ein hymrwymiad i ymchwilio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, rhieni a gofalwyr, gan gryfhau perthnasedd a chyrhaeddiad ein gwaith.

Mae ein grŵp cynghori ar ymchwil o bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, CASCADE Voices, sy'n cael ei redeg mewn partneriaeth â Voices From Care Cymru, wedi bod yn ganolog i'n Cynnwys ers sefydlu CASCADE. Mae'r grŵp wedi parhau i ffynnu dros y 5 mlynedd diwethaf gyda chyfleoedd ychwanegol i aelodau'r grŵp gymryd rhan fel Ymchwilwyr sy'n Gymheiriaid a hyd yn oed taith i Gaeredin i rannu ac arddangos eu gwaith.


Yr elfennau twf allweddol yn ein gwaith Cynnwys y Cyhoedd dros y 5 mlynedd diwethaf yw ein Bwrdd Cynnwys a'n Grŵp Rhieni CASCADE. Ar ddechrau'r cyllid newydd, aethom ati i gychwyn sefydlu Bwrdd Cynnwys y Cyhoedd, sy'n cynnwys amrywiaeth o unigolion â phrofiad personol ar draws gofal cymdeithasol plant (oedolion sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwyr maeth a rhieni). I ddechrau, cwmpas y bwrdd oedd darparu cyngor ac arweiniad i'r tîm Cynnwys y Cyhoedd i ddatrys problemau a helpu i osod y cyfeiriad teithio. Fodd bynnag, wrth i rôl y bwrdd ymsefydlu, mae bellach yn darparu llywodraethiant ar draws y ganolfan ac, yn y dyfodol agos, bydd yn gosod blaenoriaethau ymchwil ar gyfer CASCADE.



Gyda chefnogaeth y bwrdd, sefydlwyd Grŵp Cynghori ar Ymchwil Rhieni CASCADE. Mae'r grŵp unigryw hwn yn sicrhau bod llais teuluoedd sydd â phrofiad o amddiffyn plant yn cael ei glywed yn ein canolfan, gan wneud yn siŵr ein bod yn herio rhagdybiaethau. Mae rhai uchafbwyntiau'n cynnwys bod yn allweddol wrth lunio ein hymchwil ar Eiriolaeth Rhieni, datblygu eu fideo eu hunain a mwynhau pen-blwydd CASCADE yn 10 oed.

Mae Cynnwys y Cyhoedd yn ymestyn y tu hwnt i brosiectau unigol – mae ein grwpiau cynghori, ein rolau ymchwilwyr sy'n gymheiriaid, a'n cyfranogiad mewn trafodaethau polisi yn sicrhau bod profiad personol wedi'i wreiddio ym mhob lefel o'n gwaith. Mae'r ymrwymiad hwn hefyd wedi dylanwadu ar sgyrsiau cenedlaethol, gyda grwpiau Cynnwys y Cyhoedd CASCADE yn siarad ag aelodau pwyllgor y Senedd ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau yn Llywodraeth Cymru.

### Cyfranogwyr ac Ymgysylltiadau Cyhoeddus




| | Cyfranogwyr | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| CASCADE Bwrdd Cynnwys | 52 | 14 |
| CASCADE Voices | 190 | 40 |
| CASCADE Grŵp Ymchwil Rhieni | 279 | 79 |
| Cyfleoedd Ymchwil | 540 | 143 |



## Ymgysylltu a lledaenu gwybodaeth

### ExChange Wales

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae ExChange Wales wedi tyfu i fod yn rhwydwaith cenedlaethol ffyniannus, gan gysylltu ymchwilwyr, ymarferwyr, llunwyr polisi, a phobl â phrofiad personol i rannu dysgu a gyrru newid ar draws gofal cymdeithasol plant ac oedolion.

Mae'r hyn a ddechreuodd fel symud i ddarpariaeth ar-lein yn ystod y pandemig wedi esblygu ers hynny yn blatfform cymysg ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, gan gynnig gweminarau, blogiau, podlediadau, prosiectau creadigol, a chyfresi cynadleddau â thema ar bynciau yn amrywio o fabwysiadu ac iechyd meddwl i ymarfer gwrth-hiliol a rhianta gan bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Uchafbwynt allweddol eleni oedd ein cynhadledd ar ddementia, a bwysleisiodd bwysigrwydd clywed yn uniongyrchol gan bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Ychwanegodd y ffocws hwn ar brofiad personol ddyfnder emosiynol a chipolwg ymarferol i'r trafodaethau ymchwil, gan helpu i lunio ymatebion mwy empathig ac effeithiol ar draws gwasanaethau.

At ei gilydd, mae ExChange Wales wedi ymgysylltu â degau o filoedd o gyfranogwyr, wedi ehangu ei rhestr bostio ac wedi meithrin enw da am gynnwys hygyrch, o ansawdd uchel, sydd wedi'i wreiddio mewn perthnasedd yn y byd go iawn. Un o'r prif gampau oedd y gyfres 'Ail-fframio Mabwysiadu', a gyfunodd ddarlithoedd arbenigol â chyfraniadau creadigol gan blant a phobl ifanc a fabwysiadwyd, gan ysbrydoli ymgysylltiad cenedlaethol pellach a helpu i ddyrchafu ymchwil i gynulleidfaoedd newydd.

Yn sgil creu canolfannau ymchwil newydd fel CARE a SCALE, mae ExChange Wales hefyd wedi dod yn blatfform lledaenu gwybodaeth allweddol ar gyfer ymchwil sy'n dod i'r amlwg, ar draws rhychwant oes gofal cymdeithasol. Trwy bartneriaethau, grwpiau cynghori, ac ymgysylltu â'r sector, mae'n parhau i drosi tystiolaeth gymhleth yn gipolygon parod ar gyfer ymarfer – gan sicrhau bod lleisiau o bob cwr o Gymru a thu hwnt yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi, a'u cysylltu.



*"Mae ExChange yn ffynhonnell hynod o werthfawr a dibynadwy o wybodaeth sy'n canolbwyntio ar ofal cymdeithasol Cymru, nad yw ar gael yn unman arall. At hynny, mae ei waith ar gael yn gyhoeddus mewn adroddiadau ysgrifenedig ac mewn gweminarau / seminarau, ac ati, fel ei gilydd. Mae'r gwaith yn cynnwys tystiolaeth ar ffurf llais defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r cynnyrch terfynol o werth i ymarferwyr a rheolwyr."*

**Alun, Fosterline**


## Cyfansymiau cyfryngau

| Golygfeydd gwefan | Cyfanswm dilynwyr | Golygfeydd cyfryngau | Rhwydwaith ExChange |
|---|---|---|---|
| **235,279** | **3,349** | **48,469** | **1,827** |

## Allbynnau cyfryngau




## Gwylwyr cyfryngau




| | Allbwn | Gwylwyr |
|---|---|---|
| **Gwe-seminar:** | 90 | 18,644 |
| **Blogiau:** | 106 | 8,083 |
| **Fideos:** | 46 | 29,825 |
| **Bwletinau:** | 86 | 28,883 |
| **Podlediad:** | 23 | 3,372 |
| **Arddangosfa:** | 15 | n/a |



# 6. Casgliad

Mae diwedd pum mlynedd o gyllid yn rhoi cyfle i fyfyrio ar y gwaith rydym wedi'i wneud. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, mae llawer i'w ddathlu. Mae ein llwyddiant wedi'i gyflawni drwy waith caled ac ymroddiad nifer fawr o bobl – ar draws y Bartneriaeth a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys ymchwilwyr, y rhai sy'n ariannu ein gwaith, y gweithwyr proffesiynol, y rhieni a'r phlant sydd wedi cytuno'n garedig i gymryd rhan mewn astudiaethau a'r nifer o rai eraill sydd wedi cefnogi Partneriaeth CASCADE. Diolch i bob un ohonoch chi.

Gan droi at y dyfodol, mae'r rhagolygon yn gyffrous. Edrychwn ymlaen at gydweithio'n agos â rhwydweithiau Canolfannau a sefydliadau eraill yr ydym yn eu datblygu, fel CARE, SCALE ac ExChange Wales, a gobeithiwn y byddwn yn parhau â'n polisi o "dwf rhwydweithiol" yn y pum mlynedd nesaf, gan sicrhau, wrth i'r Bartneriaeth ffynnu, y gall gynyddu ei dylanwad orau drwy helpu i greu sefydliadau newydd y gallwn gydweithio'n agos â nhw. Mae rhinwedd hyn i'w gweld yn y ffordd y mae CARE a SCALE eisoes yn tyfu ein gweithlu academaidd trwy ennyn diddordeb grwpiau newydd o academyddion mewn ymchwilio i ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn argoeli'n dda ar gyfer y gwaith y byddwn yn gallu ei wneud gyda'n gilydd yn y dyfodol.

Maes datblygu arall yn y dyfodol yw bod ein gwaith yn dod yn fwyfwy rhyngwladol. Nid yn unig yr ydym yn helpu i sefydlu Canolfannau newydd dramor, fel y Ganolfan Plentyndod Gwell, ond rydym yn darparu hyfforddiant ar ddulliau ymchwil yn yr Eidal, yn Tsieina ac yn Nenmarc eleni. Mae hyn yn adlewyrchu proffil cynyddol ein gwaith a'n cydnabyddiaeth fel canolfan ragoriaeth – ac mae hefyd yn rhoi cyfleoedd i ni ddysgu gan wledydd a diwylliannau eraill, yn ogystal â chael at wahanol fathau o gyllid. Hefyd, rydym yn cael ein cydnabod fwyfwy am ein rhagoriaeth fethodolegol. Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn rhannu ac yn datblygu mwy o arloesiadau methodolegol. Felly, dylai Partneriaeth CASCADE barhau i fod yn lle cyffrous yn ddeallusol i weithio.

Mae'r holl ymdrech a gweithgarwch hwn wedi'i anelu at un nod: gwella gwasanaethau a phrofiadau i blant a'u teuluoedd. Mae tuedd i'r byd academaidd siarad am "effaith" ein gwaith. Eto mae effaith yn awgrymu bod y berthynas yn mynd i un cyfeiriad (ac mae hefyd yn awgrymu y gallai bod yn darged fod yn eithaf annymunol!). Mae'n well gen i feddwl am Bartneriaeth CASCADE fel un sydd â dylanwad. Rydym yn darparu syniadau a thystiolaeth i lywio datblygiad polisi ac ymarfer yn gysylltiedig â gofal cymdeithasol plant.

Mae dylanwad yn cymryd mwy o amser i ddatblygu nag "effaith". Mae'n gofyn am ddeialog a pherthnasoedd cynaliadwy, a rhaid iddo fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth ddofn o'r sector. Ers deng mlynedd o CASCADE ac ar ôl ein pum mlynedd cyntaf o gyllid seilwaith, teimlwn fod Partneriaeth CASCADE yn gwneud cyfraniad defnyddiol at y drafodaeth genedlaethol a rhyngwladol ynghylch dibenion gofal cymdeithasol plant a'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau rhagorol. Rydym yn gobeithio ac yn credu bod dylanwad o'r fath yn debygol o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant a theuluoedd. Mae gweithio i sicrhau bod gennym ddylanwad cadarnhaol ar ofal cymdeithasol plant trwy ymchwil ragorol yn parhau i fod yn brif ffocws i ni dros y pum mlynedd nesaf. Edrychaf ymlaen at rannu mwy am hynny mewn Adroddiadau yn y dyfodol.

**Donald Forrester**
Cyfarwyddwr Partneriaeth CASCADE